**DYDD GŴYL DEWI 2026 - Cronfa Gymorth Beilot**

**Canllawiau ar gyfer Gwneud Cais**

**Amserlen**

| | |
|---|---|
| **Dydd Mercher 15 Hydref 2025** | **Agor y cynllun grant ar gyfer ceisiadau** |
| **Dydd Gwener 14 Tachwedd 2025** | **Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais 12:00 (hanner dydd)** |

Nod y canllawiau hyn yw eich helpu i lenwi'r cais am gyllid ar gyfer Cronfa Gymorth Beilot Dydd Gŵyl Dewi 2026.

**Amcanion y gronfa beilot yw:**

1. Mae Llywodraeth Cymru am wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a'r manteision sydd ynghlwm wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn 2026, a hynny drwy gefnogi prosiectau, gweithgareddau a digwyddiadau newydd ac arloesol ar Ddydd Gŵyl Dewi 2026 a hyd at y dyddiad hwnnw (16 Chwefror - 1 Mawrth 2026). Bydd y rhain yn cael eu cynnal yng Nghymru ac yn hyrwyddo diwylliant traddodiadol a chyfoes Cymru fel cerddoriaeth, celf, llenyddiaeth, chwaraeon, bwyd a'r Gymraeg.

2. Amcanion Llywodraeth Cymru o ran y dathliadau yw:
    - Cefnogi rhaglen o weithgareddau i roi hwb i'r ffordd y mae Cymru yn **dathlu Dydd Gŵyl Dewi.**
    - **Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru** - Arddangos diwylliant traddodiadol a chyfoes Cymru fel cerddoriaeth, celf, llenyddiaeth, chwaraeon, bwyd a'r iaith Gymraeg.
    - **Ymgysylltu â phob cymuned ledled Cymru** - Annog cynghorau lleol, grwpiau cymunedol ac ysgolion i gymryd rhan. Cefnogi digwyddiadau cynhwysol sy'n meithrin ymwybyddiaeth o hunaniaeth a gwerthoedd Cymreig cyffredin, gan adlewyrchu amrywiaeth y Gymru fodern.
    - **Cefnogi Pobl Greadigol a Busnesau Cymru** - Cynnig cyfle i artistiaid, perfformwyr a gwneuthurwyr o Gymru arddangos eu gwaith. Hyrwyddo busnesau lleol trwy bartneriaethau a marchnadoedd â thema, cynyddu nifer yr ymwelwyr mewn ardaloedd sy'n cynnal gweithgareddau,

cefnogi digwyddiadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol, ee lletygarwch, lleoliadau cerddoriaeth.

- **Cynyddu Gweledeedd yn Genedlaethol** - Defnyddio cyfryngau a phlatfformau digidol i gryfhau'r ffordd y mae Cymru yn dathlu **Dydd Gŵyl Dewi** ar-lein, gan arddangos straeon o ddiwylliant traddodiadol a chyfoes Cymru yn ogystal â rhannu digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer y dathliadau.

3. Er y bydd llawer o sefydliadau yng Nghymru ac yn fyd-eang yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy gefnogi eu gweithgareddau eu hunain, mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu cronfa gyda'r nod o ychwanegu gwerth at nifer fach o brosiectau **newydd** eithriadol a all gyflawni ein hamcanion craidd.

4. Mae cyfanswm o hyd at £750,000 o gymorth refeniw yn cael ei neilltuo i'r Gronfa Gymorth Beilot. Gall sefydliadau wneud cynnig am uchafswm o £5,000, £20,000 neu £40,000 i gyflwyno prosiect, gweithgaredd neu ddigwyddiad.

5. Rhaid i geisiadau gynnig gwerth da am arian a fydd yn rhan o'r asesiad. Nid ydym yn disgwyl i ymgeiswyr wneud cais am yr uchafswm oni ddangosir yr angen yn glir yn eu cais.

6. Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn gwerth am arian, y potensial i greu effaith sylweddol yn unol â'n hamcanion a'r gallu i ddarparu gweithgareddau yn effeithiol o fewn cyfnod byr.

7. Rydym yn annog ceisiadau a gyflwynir trwy drefniadau ar y cyd neu bartneriaeth. Os yw sefydliad anghorfforedig neu grŵp a gyfansoddwyd yn gweithio ar y cyd â sefydliad a gyfansoddwyd yn llawn, rhaid i'r sefydliad a gyfansoddwyd gyflwyno'r cais, a fydd yn gweithredu ar ran y bartneriaeth.

8. Nid yw prosiectau sydd o fudd i un sefydliad neu fusnes yn unig yn gymwys. Pwrpas y grant yw cefnogi mentrau sy'n cynnig buddion cymunedol ehangach. Rhaid i geisiadau ddangos sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol y tu hwnt i fuddiannau un endid. Ni fydd prosiectau sy'n gwella gweithrediadau, proffidioldeb neu weledeedd un sefydliad neu fusnes yn unig yn cael eu hystyried.

01 03
Dydd Gŵyl Dewi Sant
St David's Day

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Pwy sy'n cael gwneud cais?**

9. Rhaid i bob ymgeisydd:
    - Fod wedi eu lleoli yng Nghymru ac yn gweithredu yno.
    - Bod o sefydliadau cymwys sy'n gallu cyflawni ar lefel leol, ranbarthol neu ledled Cymru.
    - Ar gyfer gweithgareddau, digwyddiadau a gweithdai i'r cyhoedd - Rhaid i ymgeiswyr feddu ar:
        - hanes llwyddiannus o gyflwyno digwyddiadau cyhoeddus yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol
        - Darparu tystiolaeth o'u profiad yn y gorffennol sy'n dangos y gallu i drefnu a chyflawni prosiectau, fel adroddiad ar ôl y digwyddiad gan gynnwys lluniau, fideos ac adborth gan y gynulleidfa a bod â pholisïau llywodraethu, diogelu, cynhwysiant a chydraddoldeb clir ar waith.
    - Ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig â datblygu digidol – Rhaid i ymgeiswyr fod â hanes llwyddiannus o ddatblygu cynnwys / asedau ar-lein perthnasol a darparu tystiolaeth fel dolenni i brosiectau blaenorol.

10. Mae ceisiadau ar agor i sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a grwpiau cymunedol sydd â chyfansoddiad cyfreithiol, gan gynnwys:
    - Grwpiau sydd â chyfansoddiad cyfreithiol
    - Elusennau cofrestredig
    - Cwmnïoedd Buddiant Cymunedol / Mentrau Cymdeithasol
    - Sefydliadau corfforedig elusennol
    - Cynghorau Cymuned
    - Cynghorau Tref
    - Sefydliadau rhanbarthol, awdurdodau lleol a sefydliadau diwylliannol,
    - Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru;
    - Sefydliadau cenedlaethol

11. Nid cefnogi Awdurdodau Lleol yw prif fwriad y gronfa hon, ond yn hytrach cefnogi sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a all weithio ochr yn ochr â'r awdurdodau perthnasol ac ar y cyd â nhw.

Dydd Gŵyl Dewi Sant
St David's Day

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Faint allwch chi wneud cais amdano?

12. Gall ymgeiswyr ofyn am rhwng £1,000 a £40,000. Gellir ystyried ceisiadau sy'n is neu'n uwch na'r trothwy canllaw hwn. Mae'r gronfa wedi'i rhannu'n dair lefel o gyllid:

**Grantiau bach – Meini Prawf Cymhwysedd i Ymgeiswyr**

13. Gallwch wneud cais am grant bach o £1000 i £5000 i'ch sefydliad gyflwyno prosiect, digwyddiad neu weithgaredd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar lefel leol neu gymdogaeth.

**Grantiau canolig – Meini Prawf Cymhwysedd i Ymgeiswyr**

14. Gallwch wneud cais am grant bach rhwng £5000 a £20000 i'ch sefydliad gyflwyno prosiect, digwyddiad neu weithgaredd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a fydd yn cael effaith ar lefel ranbarthol neu mewn sawl cymuned.

**Grantiau mawr – Meini Prawf Cymhwysedd i Ymgeiswyr**

15. Mae hyd at £40,000 ar gael i sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru sydd â phrofiad llwyddiannus o gynnal gweithgareddau diwylliannol traddodiadol a chyfoes, er enghraifft cerddoriaeth, celf, llenyddiaeth, chwaraeon, bwyd a'r Gymraeg.

**Bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu'n botiau rhanbarthol a sectorol er mwyn sicrhau bod prosiectau a sectorau o bob cwr o Gymru yn cael y cyfle i gymryd rhan.**

**Pa fathau o brosiectau fyddem yn eu cefnogi?**

16. Rhaid i'r cais am gyllid fod yn gysylltiedig â datblygu a chynnal prosiectau, gweithgareddau neu ddigwyddiadau a fydd yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd a'r manteision sydd ynghlwm wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Gall hyn gynnwys yr isod, ymysg eraill:

- Digwyddiadau, dathliadau a pherfformiadau wyneb yn wyneb dan do / yn yr awyr agored, fel; twmpathau, gorymdeithiau, perfformiadau cerddoriaeth, iaith ac artistig mewn lleoliadau lletygarwch/cerddoriaeth.
- Gweithdai, gweithgareddau chwaraeon, marchnadoedd a digwyddiadau bwyd dan arweiniad cyrff cymunedol, lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, i arddangos dathliadau Dydd Gŵyl Dewi.
- Gweithgareddau, digwyddiadau a chyfleoedd yn y Gymraeg i ddysgwyr Cymraeg.
- Prosiectau sy'n defnyddio cyfryngau a phlatfformau ar-lein i ddatblygu cynnwys digidol er mwyn rhannu straeon am ddiwylliant traddodiadol a chyfoes Cymru fel cerddoriaeth, celf, llenyddiaeth, chwaraeon, bwyd a'r Gymraeg er mwyn hyrwyddo Dydd Gŵyl Dewi

**Cymhwysedd ar gyfer y prosiect**

17. Rhaid i'r prosiect gael dyddiad dechrau a gorffen clir a chanlyniadau sefydlog. Rhaid cynnal gweithgareddau/digwyddiadau wyneb yn wyneb yng Nghymru **rhwng 16 Chwefror a 6 Mawrth 2026.** Rhaid i brosiectau digidol gael eu cwblhau a bod yn barod i'w lansio erbyn **16 Chwefror fan bellaf.**

18. Rhaid i ddigwyddiadau cyhoeddus ystyried y Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

19. Dylai prosiectau ddangos agwedd gynhwysol a cheisio gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth.

20. Mae enghreifftiau o gostau y gallai'r Gronfa eu talu yn cynnwys:
    - Costau sy'n gysylltiedig â chynnal y prosiect a/neu dalu costau'r rhai sy'n cymryd rhan, trefnwyr, gweithwyr llawrydd neu wirfoddolwyr.
    - Costau llogi safle, llogi cyfarpar, trafnidiaeth a chynhaliaeth i'r rhai sy'n rhan o'r prosiect.
      Costau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad, ac yswiriant.
    - Costau'r deunyddiau a ddefnyddir yn y prosiect gan gynnwys deunyddiau hyrwyddo.
    - Costau marchnata a hyrwyddo eraill.
    - Costau cyfieithu er mwyn datblygu cynnwys ac i gynnig cyfieithu yn ystod digwyddiadau, gweithdai a gweithgareddau i'r cyhoedd eraill.

- Ffioedd siaradwyr.
- Ffioedd hyfforddwyr.
- Costau swyddfa/gweinyddol.

**Yr hyn na allwch wneud cais amdano**

21. Nid yw rhai eitemau a chostau yn gymwys i'w hystyried o dan y cais. Yn eu plith mae:
    - Digwyddiadau neu raglenni presennol sydd eisoes ar y gweill neu nad ydynt yn gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi 2026
    - Costau cyfalaf, ee prynu offer (gan mai cronfa refeniw yw hon)
    - Costau staff craidd (gan eithrio ceisiadau gan sefydliadau'r Trydydd Sector)
    - Costau cychwyn, ee prynu offer a sefydlu swyddfa, costau recriwtio ac ati;
    - Talu dyled flaenorol (cyn 1 Ebrill 2025)
    - TAW y gellir ei hadennill
    - Costau a ariennir o ffynonellau eraill o gyllid cyhoeddus
    - Swm i dalu am incwm a gollwyd neu i ail-chwyddo eich cronfeydd wrth gefn
    - Ardrethi busnes
    - Ffioedd cyfreithiol
    - Costau diswyddo
    - Unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru
    - Costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo achos credoau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd
      Prosiectau sy'n dibynnu ar lafur am ddim neu sy'n ei annog
    - Cyllid mewn nwyddau. Mae cyllid mewn nwyddau fel arfer yn cyfeirio at gyfraniadau a chymorth nad yw'n ariannol o ffynonellau eraill.

22. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o gostau anghymwys, a byddwn yn pwyso a mesur pob eitem o wariant yn eich cais i weld a yw'n cefnogi nodau'r Gronfa.

**Arian Cyfatebol**

23. Rydym yn croesawu ceisiadau lle mae arian cyfatebol gan sefydliad arall ar waith. Sylwch nad oed rhaid i chi gael cyllid cyfatebol i gyflwyno cais i'r gronfa hon.

## Sut fydd y broses ymgeisio'n gweithio?

**Y Broses Ymgeisio**

24. Rhaid i ffurflenni cais gael eu llenwi a'u cyflwyno'n electronig i DyddGwylDewi2026@llyw.cymru erbyn 12:00 (hanner dydd) ar 14 Tachwedd 2025 fan bellaf. Ni ystyrir unrhyw geisiadau sy'n cyrraedd yn hwyr. Gall ymgeiswyr ddarparu deunydd ategol fel atodiadau.

**Y ffurflen gais**

Mae 4 adran i'r ffurflen gais:

- **Adran 1 – Manylion yr Ymgeisydd**

Yn yr adran hon mae'n ofynnol i chi roi manylion am eich sefydliad ar hyn o bryd, gan gynnwys manylion eich staff a pholisïau sefydliadol

- **Adran 2 – Manylion y Prosiect**

Yn yr adran hon mae'n ofynnol i chi esbonio'ch prosiect arfaethedig, sut y bydd yn bodloni nodau ac amcanion y gronfa hon, yn ogystal â'i heffaith ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol.  Gofynnwn i chi hefyd ddisgrifio amserlen y prosiect, yr adnoddau sydd eu hangen, unrhyw risgiau cysylltiedig a'r hyn y gallwch ei wneud i liniaru'r rhain. Bydd yn rhaid i chi hefyd gadarnhau sut bydd y Gymraeg yn cael ei chynnwys a sut y bydd yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050.

- **Adran 3 – Gwybodaeth Ariannol**

Yn yr adran hon bydd angen i chi roi manylion am gostau'r prosiect, ffynhonnell eich arian cyfatebol (os oes peth) a faint o gyllid sydd ei angen arnoch i alluogi'r prosiect i fwrw ymlaen er mwyn i ni benderfynu ar hyfywedd y prosiect.

- **Adran 4 – Datganiadau**

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen y ddogfen ganllawiau hon ac yn deall y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cais hwn am Grant gan fod hyn yn rhan o'r contract rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru. Ar ôl ei chwblhau, cyflwynwch eich ffurflen gais a'ch dogfennau ategol i ni drwy DyddGwylDewi2026@llyw.cymru.

**Gwerthuso Prosiectau**

25. Ar ôl i chi gyflwyno eich cais cyflawn ac ar ôl y dyddiad cau , byddwn yn cynnal gwiriadau a gwerthusiadau o'r holl brosiectau sydd wedi dod i law. Byddwn yn ceisio rhoi gwybod i bob ymgeisydd am ganlyniad ein penderfyniadau cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau .

26. Bydd ceisiadau sydd wedi bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd uchod ac sy'n cyd-fynd ag amcanion y gronfa yn cael eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf gwerthuso yn Atodiad 1. Mae hwn yn gynllun cystadleuol ac felly, oherwydd y gyllideb sydd ar gael, dim ond y prosiectau sy'n cael y sgoriau uchaf fydd yn cael eu cefnogi.

27. Cynhelir Diwydrwydd Dyladwy ar bob cais. Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael llythyr Cynnig Grant a fydd yn amlinellu manylion telerau ac amodau ein cynlluniau grant. Ar ôl i'r ymgeiswyr gael y llythyr hwn, ac ar yr amod eu bod yn fodlon â'r telerau ac amodau sy'n cael eu hamlinellu yn y cynnig grant, bydd angen iddynt ei lofnodi a'i ddychwelyd atom cyn gynted â phosibl.

**Apelio**

28. Cronfa ddewisol yw hon ac nid oes proses apelio benodedig. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr aflwyddiannus ar ôl i ni wneud ein penderfyniad. I'ch atgoffa, mae hon yn gronfa gystadleuol gyda chyllideb gyfyngedig, felly bydd pob prosiect yn cael ei asesu a'i sgorio a dim ond y prosiectau sy'n cael y sgoriau uchaf fydd yn gallu cael eu cefnogi.

**Proses hawlio ac amodau'r gronfa**

29. Bydd y grant yn cael ei dalu yn ôl-ddyledus ar sail gwariant wedi'i dalu, yn ddiofyn. Mae hyn yn golygu y bydd hawliadau'n cael eu talu ar ôl i'r

ymgeisydd gwblhau trafodiad a chynnwys y dystiolaeth yn rhan o'r hawliad, hy ni fydd y taliad yn cael ei wneud ymlaen llaw.

30. Gall sefydliadau'r Trydydd Sector gyflwyno cais ar wahân i'r dyfarniad gael ei wneud ymlaen llaw yn seiliedig ar angen a ddangosir. Bydd angen rhoi tystiolaeth o hyn gan gynnwys dogfennau ariannol a rhagolygon cyllidebu.

[Yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan y rhai hynny sy'n derbyn grant [HTML] | LLYW.CYMRU]

**Ad-dalu Grant**

31. Dylai ymgeiswyr nodi y gallai Llywodraeth Cymru ofyn am ad-daliad o'r grant yn llawn neu'n rhannol os na chaiff yr arian ei ddefnyddio at y dibenion a nodir ar y ffurflen gais. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb, a gorfodir hyn drwy ofyn am brawf ar ôl dyfarnu'r grant.

**Rheoli cymorthdaliadau yn y DU**

32. Rhaid i chi sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r cytundebau perthnasol sydd yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol. Yn rhan o'ch cais bydd angen i chi ddarparu manylion unrhyw gyllid blaenorol y mae eich busnes wedi'i dderbyn.

33. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd y cyllid yn cael ei ystyried yn Gymorth Ariannol Lleiaf yn unol â Phennod 2, Rhan 3 o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, a elwir yn flaenorol yn SAFA* / Cymorth de Minimis, yn unol ag Erthygl 3.2, paragraff 4 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE. Mae hyn yn cyfyngu ar faint o gymorth y caiff busnes ei dderbyn o'r wladwriaeth.

34. Os ydych wedi derbyn Cymorth Ariannol Lleiaf, SAFA neu Gymorth de Minimis yn y gorffennol, dylech fod wedi cael eich hysbysu am hynny pan gawsoch y cymorth hwnnw.

35. Bydd angen ichi ychwanegu'r dyfarniad hwn at gyfanswm eich Cymorth Ariannol Lleiaf dros y tair blynedd ariannol diwethaf (mae angen i'r ffigur hwn aros o dan tua £315,000), ynghyd ag unrhyw ddatganiadau Cymorth Ariannol Lleiaf neu hawliadau yn y dyfodol a datgan y cyfanswm inni pan fyddwch yn gwneud cais. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Dibenion yn cael eu cyflawni yn unol â'r meini prawf Cymorth Gwladwriaethol y dyfernir y cyllid arnynt. Os byddwch yn mynd dros y terfyn hwnnw, chi fydd yn gyfrifol am unrhyw gamau a fydd yn deillio o hynny, gan gynnwys ad-dalu'r cymorth y byddwch wedi'i gael. Am ragor o wybodaeth, ewch i Canllawiau statudol ar Gyfundrefn Rheoli Cymhorthdaliadau'r DU

**Y Gymraeg**

36. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni. Mae sectorau a diwydiannau'r celfyddydau, chwaraeon, lletygarwch a'r sectorau creadigol a diwylliannol yn chwarae rhan allweddol wrth gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae blaenoriaethau'r Gymraeg yn un o amrywiol feysydd y byddwn yn eu hystyried yn rhan o'n hasesiad o gydweddu strategaethau wrth adolygu prosiectau.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

37. Llywodraeth Cymru yw'r Rheolwr Data am unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych. Mae manylion llawn ein polisi preifatrwydd ar gael ar dudalen yr Hysbysiad Preifatrwydd. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen, deall a derbyn y 'Canllawiau' a'r 'Hysbysiad Preifatrwydd' **cyn** i chi ddechrau'r cais.

Dydd Gŵyl Dewi Sant
St David's Day

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Atodiad 1**

**Meini Prawf Arfarnu**

Bydd angen i brosiectau fodloni'r meini prawf cymhwysedd er mwyn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

| *MP* | *Meini Prawf Arfarnu* | *Ffactor Bwysoli* | *Sgôr* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ffit Strategol**<br>• Cyd-fynd â'r amcanion ariannu cyffredinol.<br>• cefnogi rhaglen o weithgareddau i roi hwb i'r ffordd y mae Cymru yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.<br>• Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru - Arddangos diwylliant traddodiadol a chyfoes Cymru fel cerddoriaeth, celf, llenyddiaeth, chwaraeon, bwyd a'r iaith Gymraeg.<br>• Ymgysylltu â phob cymuned ledled Cymru - Annog cynghorau lleol, grwpiau cymunedol ac ysgolion i gymryd rhan. Cefnogi digwyddiadau cynhwysol sy'n meithrin ymwybyddiaeth o hunaniaeth a gwerthoedd Cymreig cyffredin, gan adlewyrchu amrywiaeth y Gymru fodern.<br>• Cefnogi Pobl Greadigol a Busnesau Cymru - Cynnig cyfle i artistiaid, perfformwyr a gwneuthurwyr o Gymru arddangos eu gwaith. Hyrwyddo busnesau lleol trwy farchnadoedd neu bartneriaethau â thema, cynyddu nifer yr ymwelwyr mewn ardaloedd sy'n cynnal gweithgareddau, cefnogi digwyddiadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol e.e. lletygarwch, lleoliadau cerddoriaeth.<br>• Cynyddu Gwelededd yn Genedlaethol - Defnyddio cyfryngau a phlatfformau digidol i gryfhau'r ffordd y mae Cymru yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar-lein, gan arddangos straeon o ddiwylliant traddodiadol a chyfoes Cymru fel cerddoriaeth, celf, llenyddiaeth, chwaraeon, bwyd a'r Gymraeg yn ogystal â rhannu digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer y dathliadau. | X 10 | /5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | **Ansawdd ac Ymgysylltu â'r Prosiect**<br>• Effaith ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol<br>• Ymgysylltu â'r gymuned<br>• Dull rhanddeiliaid a phartneriaeth<br>• Amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Y Gymraeg | × 10 | /5 |
| 3. | **Risgiau'r Prosiect a Chynnal a Chyflenwi'r Prosiect**<br>Ansawdd yr wybodaeth a ddarperir ar gyfer:<br>• Cynllun y prosiect, amserlen ac adnoddau'r tîm<br>• Strwythur y Tîm Rheoli<br>• Partneriaid / cydweithio ar brosiectau<br>• Risgiau'r Prosiect | × 5 | /5 |
| 4. | **Costau'r Prosiect a Gwerth am Arian**<br>• Mae'r cynnig cyffredinol yn rhoi gwerth am arian<br>• Mae gweithgarwch a chostau cysylltiedig yn rhoi gwerth realistig a gwerth gorau<br>• Costau'r prosiect, amserlen hawlio<br>• Mae'r manteision disgwyliedig yn gymesur â chostau<br>• Rhoddir tystiolaeth dda ar gyfer strategaeth ymadael a chynaliadwyedd hirdymor y cynnig<br>• Gallu cael effaith dros gyfnod hirach | × 5 | /5 |

**Cyfanswm o 150**

Dyꝺꝺ Gŵyl Dewi Sant
St Daviꝺ's Day

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Matrics sgorio**

| Sgôr | Dangosydd | A oes modd ei gyllido? |
|---|---|---|
| 5 | Eithriadol – Roedd yr ymateb yn gadarn, yn fanwl ac yn seiliedig ar yr holl agweddau perthnasol, gan ddarparu tystiolaeth gref y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, heb unrhyw wendidau na meysydd sy'n peri pryder o ran y cynnwys. | Oes |
| 3 | Ansawdd uchel – Roedd yr ymateb yn cyflwyno tystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, yn dda mewn sawl ffordd ond gyda mân wendidau neu bryderon ynghylch y cynnwys. | Oes |
| 1* | Gwael – Nid oedd yr ymateb yn darparu llawer o dystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, roedd gwendidau neu bryderon mawr o ran y cynnwys. Nid oedd llawer o fanylder/eglurder yn yr ymateb. | Nac oes |
| 0* | Annerbyniol – Nid oedd yr ymateb yn darparu tystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni; roedd yn gwbl anfoddhaol o ran y cynnwys. Nodwyd gwendidau, problemau neu fylchau sylweddol. Roedd yr ymateb wedi'i gyfleu mewn ffordd wael a/neu anghyson. | Nac oes |

*Os cewch sgôr o 1 neu 0 ar gyfer unrhyw gwestiwn, bydd eich cais yn cael ei wrthod.